cwmpas

For economic and social change

Creu newid economaidd a chymdeithasol

Rôl a Chyfrifoldebau'r Bwrdd

Mehefin 2021

Awduron: Gweithgor y Bwrdd



Rhif y Fersiwn	Statws	Rheswm	Dyddiad
1.0	Wedi'i gymeradwyo	Adolygiad gan y Bwrdd	Mehefin 2019
2.0	Wedi'i gymeradwyo	Adolygiad gan y Bwrdd	Mehefin 2021

Datblygwyd y disgrifiad hwn o'r rôl i hyrwyddo gweledigaeth a gwerthoedd Cwmpas.
Mae'n sail i Reolau Cwmpas, Cod Ymddygiad y Bwrdd, a'r Atodlen Awdurdod Dirprwyedig.

Rôl yr aelod o'r bwrdd (Cyfarwyddwr)

Prif ddiben

- Arwain y ffordd wrth sicrhau bod diben, cenhadaeth, a gwerthoedd Cwmpas yn cael eu rhoi ar waith.
- Hyrwyddo Cwmpas a'i statws cydweithredol.
- Cydweithio wrth bennu cyfeiriad strategol, polisïau, a safonau Cwmpas.
- Monitro perfformiad yn erbyn tueddiadau a thargedau cytunedig trwy arfarnu'n feirniadol wybodaeth ariannol, gwybodaeth am berfformiad a gwybodaeth arall berthnasol yn rheolaidd.
- Dal rheolwyr a staff i gyfrif trwy herio cynigion yn adeiladol a chraffu ar gynlluniau ar gyfer gwella perfformiad a gweithgareddau newydd.
- Cynorthwyo'r Prif Weithredwr a staff Cwmpas i gyflawni'r strategaeth a'r cynllun gweithredu blynyddol.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

1. Paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, is-grwpiau neu weithgorau, a'u mynychu, a herio gwybodaeth a chyd-aelodau yn adeiladol, cymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau, a rhannu cyfrifoldeb ar y cyd am benderfyniadau'r Bwrdd a'u cefnogi.

2. Ymrwymo i fynychu o leiaf 80% o gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau (os yw wedi'i benodi i bwyllgor).
3. Darllen ac ystyried papurau cyn cyfarfodydd, a pharatoi o flaen llaw ar gyfer cyfarfodydd, gan geisio gwybodaeth ychwanegol os bydd angen.
4. Mynychu sesiynau dysgu, datblygu, a hyfforddi yn unigol neu ar y cyd er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn dysgu a datblygu'n barhaus, gan gynnwys sesiynau sefydlu (ar gyfer aelodau newydd).
5. Paratoi ar gyfer digwyddiadau/sesiynau cwrdd i ffwrdd, hyfforddiant, cynadleddau, a seminarau, a'u mynychu, fel y bo'n briodol, a rhoi adborth i'r Bwrdd cyfan pan fydd angen.
6. Paratoi ar gyfer adolygiadau ac arfarniadau'r Bwrdd/llywodraethu – yn unigol ac ar y cyd, a chymryd rhan ynddynt.
7. Hyrwyddo pennaf les Cwmpas a chydymffurfio â'i gyfrifoldebau cyfreithiol wrth wneud pob penderfyniad.
8. Ceisio cyngor arbenigol pan gredir bod hyn yn angenrheidiol er mwyn i'r Bwrdd wneud penderfyniad gwybodus.
9. Cynnal dealltwriaeth o weithgareddau Cwmpas a'r amgylchedd y mae'n gweithio ynddo trwy ddarllen deunydd perthnasol, trafod gyda rhanddeiliaid, mynychu digwyddiadau perthnasol, ac ati.
10. Datblygu a chynnal perthynas waith dda gyda chydweithwyr ar y Bwrdd, y Prif Weithredwr, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, a rhanddeiliaid.
11. Hyrwyddo thema benodol neu fater penodol yn unigol ac ar y cyd ag aelodau eraill y Bwrdd, fel y bo'n briodol.
12. Cynnal gwerthoedd ac enw da Cwmpas.
13. Cydymffurfio â Rheolau, Cod Ymddygiad ac Atodlen Awdurdod Dirprwyedig Cwmpas ac unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol.
14. Datgan pob gwrthdaro buddiannau perthnasol.
15. Cynrychioli Cwmpas lle y cytunir.